# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 11

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Cyffredinol*

### 196 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae pŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon i'w arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau gwahanol o achosion, ardaloedd gwahanol neu at ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth wahanol yn gyffredinol neu'n ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodol neu ddim ond mewn perthynas ag achosion penodol neu ddosbarthau penodol o achos;

(c) i wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed.

(3) Nid yw is-adrannau (1) a (2) yn gymwys i orchymyn y caniateir i lys neu ynad heddwch ei wneud.

(4) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(5) Nid yw is-adran (4) yn gymwys i reoliadau y mae is-adran (6) yn gymwys iddynt.

(6) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau neu'r gorchmynion canlynol (p'un ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd â darpariaeth arall) gael ei wneud

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

onid oes drafft o’r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a’i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—

(a) rheoliadau o dan adran 3(6), 16(3), 18(3), 32, 37(1), 40(1), 42(1), 119, 127(9), 135(4), 166, 167(3), 168 neu 181;

(b) gorchymyn o dan adran 140 neu 143(2);

(c) rheoliadau o dan adran 198 sy’n diwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu mewn un o Fesurau neu Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(gweler adrannau 33 a 141 am ofynion pellach mewn perthynas â gwneud rheoliadau o dan adran 32 a gorchmynion o dan adran 140).

(7) Mae offeryn statudol sy’n cynnwys rheoliadau a wneir gan yr Arglwydd Ganghellor o dan adran 101 yn ddarostyngedig i’w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan y naill neu’r llall o ddau Dŷ’r Senedd.